# PWYLLGOR CYNLLUNIO
# 28 MAWRTH 2018

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Mercher 29 Mawrth 2018.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Marion Bateman, Sion Bibby, Chris Bithell, Derek Butler, David Cox, Adele Davies-Cooke, Ian Dunbar, Patrick Heesom, Dave Hughes, Kevin Hughes, Christine Jones, Richard Jones, Richard Lloyd, Billy Mullin, Neville Phillips ac Owen Thomas.

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: David Evans, Veronica Gay a Mike Peers.

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd); Rheolwr Gwasanaeth - Strategaeth; Arweinydd Tîm – Cynllunio, Uwch Gynlluniwr; Uwch Gyfreithiwr ac Arweinydd Tîm - Gwasanaethau Pwyllgorau.

## 69. DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o gysylltiad.

## 70. SYLWADAU HWYR

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a ddosbarthwyd yn ystod y cyfarfod ac a ychwanegwyd at y rhaglen ar wefan Cyngor Sir y Fflint:

http://committeemeetings.flintshire.gov.uk/documents/s48065/Late%20Observations.pdf?LLL=0

## 71. COFNODION

Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2018 fel cofnod cywir.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 72. EITEMAU I'W GOHIRIO

Dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd) nad argymhellodd y swyddogion y dylai unrhyw rai o'r eitemau ar y rhaglen gael eu gohirio.

**73. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO A'R AMGYLCHEDD)**

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi penderfyniadau fel y dangosir ar amserlen y Cais Cynllunio sydd ynghlwm fel atodiad.

**74. AELODAU'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL**

Ar ddechrau'r cyfarfod roedd 8 aelod o'r cyhoedd ac un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 3.10pm)

…………………………
**Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu a gellir eu gwylio drwy ymweld â'r llyfrgell gweddarlledu: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

## PWYLLGOR CYNLLUNIO 28 IONAWR 2018

| RHIF EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SIARADWYR TRYDYDD PARTI CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 057786 | Cyngor Tref y Fflint | Newid defnydd tir ar gyfer gosod carafanau i ddibenion preswyl ar gyfer 15 llain Sipsiwn ynghyd â gosod wyneb caled a chodi ystafelloedd dydd fel estyniad i'r Safle Teithwyr Iard Huntley presennol yn Iard Huntley, Ffordd Caer, y Fflint. | Siaradodd y Cynghorydd Rita Johnson, fel aelod lleol, yn erbyn y cais | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad ac yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 057027 | Cyngor Cymuned Bagillt | Cais llawn – adeiladu 10 annedd (4 eisoes wedi eu codi o dan ganiatâd cyf. 049273) gan gynnwys yr holl fanylion tirlunio ac ati ar (gyn) safle'r Lleng Brydeinig Frenhinol, Gadlys Lane, Bagillt. | Siaradodd Mr A Davies, preswylydd lleol, yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd Mr T Renshaw yn erbyn y cais ar ran Cyngor Cymuned Bagillt.<br><br>Siaradodd Mr. P Lloyd, yr asiant, o blaid y cais. | Y dylid gwrthod caniatâd cynllunio, yn groes i argymhelliad y swyddogion, yn seiliedig ar ddiffyg lle rhwng yr adeiladau, a gan ystyried hefyd y gwahaniaeth rhwng lefel y safle a'r eiddo cyfagos, a fyddai'n golygu fod yr eiddo newydd yn edrych drostynt ac yn arwain at golli preifatrwydd. |
| 057900 | Cyngor Tref yr Wyddgrug | Cais Llawn - Codi estyniad deulawr ar gefn annedd yn 8 Tai Maes, yr Wyddgrug. | Siaradodd Mrs C. Spencer, preswylydd lleol, yn erbyn y cais. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad ac yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 057158 | Cyngor Cymuned Penarlâg | Cais Llawn - Newid defnydd i dŷ amlfeddiannaeth (rhannol | | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad ac |

| RHIF EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SIARADWYR TRYDYDD PARTI CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| | | ôl-weithredol) yn 3 The Poplars, Penarlâg. | | yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 057260 | Cyngor Cymuned Penarlâg | Cais Llawn - Newid defnydd i dŷ amlfeddiannaeth (rhannol ôl-weithredol) yn 5 The Poplars, Penarlâg. | | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad ac yn unol ag argymhelliad y swyddog. |